# CANOLFAN IECHYD AMLWCH
**Ffordd Parys**
**Ynys Môn LL68 9AB**

# MEDDYGFA BAE CEMAES
**Stryd Fawr**
**Ynys Môn LL67 0HU**

## ARWEINIAD AR FYNEDIAD I GOFNODION

***Cyflwyniad***

O dan GDPR mae gan unrhyw unigolyn yr hawl i weld gwybodaeth bersonol y mae'r Practis yn ei dal amdanynt.

Gall cleifion awdurdodi trydydd parti, megis aelodau'r teulu, yswirwyr, cyfreithwyr neu gyflogwyr i wneud cais am wybodaeth, gofyn am adroddiadau, llythyrau neu gopïau.

Rhaid ymateb i geisiadau am ddata o dan GDPR o fewn 1 mis ac ni chodir tâl oni bai bod y cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, yn enwedig os yw'n ailadroddus. Os oes tâl i'w godi byddwn yn cysylltu â chi cyn mynd ymlaen. Os yw'r cais yn gymhleth, efallai y bydd angen estyniad i'r cyfnod 1 mis; bydd y ceisydd yn cael ei gynghori yn unol â hynny.

***Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau***

Cwblhewch y ffurflen drosodd gyda chymaint o wybodaeth â phosibl os gwelwch yn dda. Cyn rhoi copïau, bydd angen i ni gadarnhau hunaniaeth y ceisydd (darparwch ID photograffig a phrawf o gyfeiriad). Mae angen gwybodaeth a gasglwyd drwy'r ffurflen hon i alluogi i'ch cais gael ei brosesu, ac ni chaiff ei ddefnyddio ond yng nghyswllt prosesu'r cais Gwrthrych am Wybodaeth hwn. Os yw'r cais gan drydydd parti, rhaid cynnwys cydsyniad claf.

Caiff copïau o gofnodion llawn i gyfreithwyr eu darparu ar ôl dderbyn ffurflen gydsynio BMA/Cymdeithas y Cyfreithwyr a argymhellir yn unig, y gellir ei chael gan y feddygfa.

***Gweld cofnodion***

Caiff claf wneud cais am weld eu cofnodion papur ac electronig. Dylid gwneud apwyntiad trwy'r dderbynfa, i wneud hyn gyda'r Rheolwr Practis. Rhaid cwblhau'r ffurflen mynediad drosodd, a bydd angen prawf o hunaniaeth.

***Copïau o gofnodion***

***Crynodeb Electronig***

Gellir darparu allbrint o gofnodion electronig llawn claf. Bydd gan y rhain fanylion o'r holl ohebiaeth ddiweddar, ymgynghoriadau a thriniaeth, a chrynodeb o gofnodion papur cynharach.

***Cofnodion Papur***

Gall rhai cofnodion hŷn fod ar ffurf papur yn unig a bydd angen copïo/sganio ychwanegol i ddarparu'r cofnodion hyn. Bydd gwybodaeth allweddol wedi ei chrynhoi ar y cofnodion electronig.

Byddem yn annog y rheiny sy'n gwneud cais am ddata, i drafod unrhyw gais am gopïau o gofnodion llawn oherwydd maint a chymhlethdod posibl y cofnodion.

***Eithriadau***

Gellir gwrthod neu atal mynediad lle

- Mae'r cofnod yn cynnwys gwybodaeth sy'n adnabod trydydd parti nad yw'n weithiwr gofal proffesiynol a sydd heb gydsynio i ddatgelu.
- Bydd mynediad yn andwyo gofal oherwydd y ffaith bod niwed difrifol i les corfforol neu feddyliol yr unigolyn neu unrhyw berson arall yn debygol.
- Bydd mynediad i'r holl gofnod neu ran ohono yn niweidio'n ddifrifol les corfforol neu feddyliol yr unigolyn neu unrhyw berson arall.

***Amgylchiadau arbennig***

***Byddar Dall neu Anhawsterau Darllen/Iaith***

Gwneir trefniant i sicrhau y gall y claf roi cydsyniad gwybodus.

***Mynediad i Gofnodion Cleifion Ymadawedig***

Pan fo claf yn marw ni chedwir y cofnodion gan y practis. Mae gofyn i ni eu hanfon i'r Awdurdod Iechyd i'w harchifo.

Petai aelod o deulu neu drydydd parti arall angen mynediad i'r cofnodion hyn, bydd y cais yn cael ei anfon ymlaen gan y practis, neu gellir anfon y cais yn uniongyrchol i'r cyfeiriad hwn:

Ceisiadau Cofnodion Iechyd
Tŷ Cwmbran
Ystad Parc Mamhilad
Pontypŵl
NP4 0XS

neu yn ddelfrydol:

nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk

**FFURFLEN GAIS AM FYNEDIAD I DDATA PERSONOL**

**Y PERSON Y MAE EI ANGEN EI WYBODAETH**

| | |
|---|---|
| Enw llawn | |
| DG | |
| Cyfeiriad a Rhif Ffôn | |

**Y PERSON SY'N GOFYN AM WYBODAETH OS NAD Y CLAF**

| | |
|---|---|
| Enw llawn | |
| Cyfeiriad a Rhif Ffôn | |

**Crynodeb o'r wybodaeth sydd ei hangen (ticiwch (✓) y bocs priodol a chwblhewch unrhyw wybodaeth ychwanegol)**

| | |
|---|---|
| Gweld cofnodion yn unig ond dim copïau | |
| Copi llawn o'r holl gofnodion | |
| Copi o rannau detholedig | |
| Os dewiswyd dyddiadau nodwch o ac i<br><br>O i | |
| Os dewiswyd adrannau neu gyflwr iechyd, manylwch | |

**TICIWCH (✓) Y BOCS PRIODOL a chwblhewch unrhyw wybodaeth ychwanegol**

| | |
|---|---|
| Fi yw'r claf **DS bydd angen prawf adnabod.** | |
| Rwyf yn gweithredu ar ran y claf (r**haid** cwblhau awdurdodiad isod).<br>**Perthynas:** | |
| Rwyf yn rhiant/gwarcheidwad ac mae'r claf o dan 16 oed ac yn analluog i ddeall y cais. **DS Bydd angen prawf adnabod.** | |
| Rwyf yn rhiant/gwarcheidawd ac mae'r claf o dan 16 oed ac wedi cwblhau y cais uchod. **DS Bydd angen prawf adnabod a thystysgrif geni'r plentyn.** | |
| Rwyf wedi cael fy apwyntio gan y llys i reoli materion y claf. (**Rhaid darparu prawf**). | |

**DATGANIAD**

Rwyf yn datgan bod y wybodaetha roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a bod gen i'r hawl i wneud cais am fynediad i'r cofnodion iechyd.

**Llofnod** **Dyddiad**

---

**Ceisiadau Trydydd Parti**

**AWDURDODI** ……………………………………..(Rhowch ENW LLAWN)

Rwyf trwy hyn yn awdurdodi fy Meddyg Teulu i ryddhau unrhyw ddata personol sydd ganddynt yn berthnasol i mi a warchodir gan y Ddeddf Diogelu Data i: ……………………………………… (nodwch ENW LLAWN y person sy'n gweithredu ar eich rhan) i'r hwn rwyf wedi cydsynio i weithredu ar fy rhan.

**LLOFNODWYD: …………………………………………………….. Dyddiad: …………………….**

---

**Defnydd Gweinydd: gwirio id** **cwblhawyd gan**
**Manylion o'r hyn a ddarparwyd**